

Y Synhwyrâu

Darlleniad: Salm 96

Ein Tad, rydym am ddod o dy flaen yn awr, ac am dy adnabod mewn ffordd real a phersonol. Rydym am i ti agor ein llygaid i weled yr Iesu. I 'mestyn a'i gyffwrdd a dweud ein bod yn ei garu. Agor ein clustiau, a dysg inni wrando. Agor ein calon i nabod Iesu.

Diolch mai ti yw ein creawdwr. Rwyt wedi ein gwneud yn rhyfeddol; rwyt wedi creu ynom bob cymal ac asgwrn, a phob un o'n cyhyrau, i gyd-weithio i'n cynnal ac i'n nerthu. Wrth inni ddod i wybod mwy a mwy am ein cyfansoddiad, O! Dad, gwelwn mor fawr wyt ti. Mae'r gwyddonwyr wedi ein dysgu mor gymhleth, mor fanwl yw ein gwneuthuriad, ac yr ydym am ganmol enw y gwneuthurwr. Yr ydym am ganmol dy Fab, trwyddo ef y gwnest di bob peth, a hebdo Ef, ni wnaed dim. Mae ein creadigaeth yn dangos yn ei chymhlethdod fod gennym grëwr, mai nid ar ddamwain, neu o ganlyniad i gyd-ddigwyddiad yr ydym yr hyn ydym. Mae'r cyfan yn moli gwaith dy law.

Yr ydym yn diolch i ti, O! Dduw, ein bod nid yn unig wedi ein creu mewn cymhlethdod, ond yn ychwanegol at hyn dy fod wedi rhoi i ni synhwyrâu i fedru amgyffred ein hunain a'r byd o'n hamgylch. Diolch am gael gweld prydferthwch ar bob llaw, prydferthwch dy greadigaeth, yn ei gogoniant a'i harddwch. Ar y mynydd ac yn y dyffryn, wrth y môr ac ar lan afon gwelwn holl ryfeddod y Duw sydd wedi gwneud popeth yn dda. Diolchwn am gael gweld gwên, am gael gweld ceinder blodyn, am y wawr, y machlud, a'r llu pethau sy'n amlygu dy gariad di. Arglwydd, rydym yn gweld hagrwach, rydym yn gweld galanastra hefyd, sy'n ein sobri, ac yn ein hatgoffa nad ydi y byd ddim fel y bwriedaist ef. Gwelwn hefyd hagrwach pechod sy'n peri inni dristáu.

Diolch am gael clywed sŵn yr adar, sŵn y gwynt, sŵn y plant, sŵn y chwarae, sŵn cerdd a chân, lleisiau o bob cyfeiriad.

Moliannwn di am glust i glywed, i'n calonogi, i'n hannog, i'n dysgu, i'n cysuro, i glywed llais cariad ac anwylyd. Yr ydym yn clywed sŵn y gynnu hefyd, sŵn crio y boen a'r anobaith. Clywn lef y tlawd, yr amddifad, y digartref a'r diymgeledd, clywn leisiau yn serio ein cydwybod, clywn leisiau yn ein galw i gydymdeimlad ymarferol. Caniatâ i ni sydd â chlustiau glywed ac ymateb i'r hyn a glywn.

Diolch am fedru arogl, am fedru cyffwrdd, am fedru blasu, am y cyfoeth a ddaw wrth brofi yn ymarferol dy ddaioni yn dy greadigaeth, a'r amrywiaeth sydd yno i bob un ohonom. Mae ein synhwyrau yn ein llawenhau, yn ein rhybuddio, yn ein tristáu, yn codi ofn a dychryn, yn ehangu yn rhyfeddol ein profiad o fywyd. Ond yr ydym am gofio am y rhai hynny heddiw sydd ddim yn gweld, yn clywed, yn arogl, yn teimlo, yn blasu, a chyflwynwm hwy, ynghyd â'r rhai sy'n eu cynorthwyo i ti, gan ddiolch amdanynt. Arglwydd, boed inni edrych am gyfle i fod yn llygaid, yn glustiau yn wir, yn bum synnwyr, i'r bobl hyn. Dangos inni'r cyfle i gynorthwyo a chyfoethogi eu profiad hwy, er dyrchafu dy enw, ac enw Iesu, ein Harglwydd. Amen.

Meirion Morris